Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

# Cylch Meithrin Rhosybol

**Ysgol Gymuned Rhosybol**
**Rhosybol**
**LL68 9AP**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Rhosybol

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Rhosybol |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Catrin Eiri Williams |
| Person â gofal | Rita Ridgway |
| Nifer y lleoedd | 15 |
| Amrediad oedran y plant | 2 a hanner i 4 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 8 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 5 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Iau am 11:45 y.b. tan 3:00 y.h. yn ystod tymor ysgol. |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Hwn yw'r arolygiad cyntaf ers cofrestriad y lleoliad yn 2020. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 18/05/2015 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 28/03/2023 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Cynllunio a darparu cyfleoedd bwriadus i blant dysgu am ddiwylliannau gwahanol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron bob plentyn yn hapus ac yn fodlon yn y lleoliad. Maent yn ymdopi'n dda wrth adael eu rhieni ac yn awyddus i gyda'u ffrindiau i chwarae yn syth wrth gyrraedd. Mae bron bob plentyn yn hyderus wrth wneud penderfyniadau a dewis sut maent yn treulio eu hamser. Mae'r plant yn dilyn eu diddordebau ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau wedi'u cynllunio yn eu hamser eu hunain gan bod gweithgareddau a theganau yn cael eu trefnu'n effeithiol ac o fewn eu cyrraedd. Mae bron bob plentyn yn dangos parch at yr offer.

Mae bron bob plentyn yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol ac mae ganddynt berthynas bositif gyda'r ymarferwyr, sy'n creu sicrwydd iddynt. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu hunain yn hyderus. Maent yn rhannu syniadau, ateb cwestiynau syml ac yn mynegi unrhyw angen am gymorth yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwybod y bydd eu barn yn cael ei pharchu gan ymarferwyr. Er enghraifft, wrth rannu beth oedd eu hoff weithgaredd o'r sesiwn yn ystod amser cylch, mae'r plant yn gwenu pan mae'r ymarferwyr yn gwrando'n astud a holi mwy o gwestiynau.

Mae'r rhan fwyaf o blant wedi dechrau gwneud ffrindiau. Maent yn awyddus i gyfarch ei gilydd ac i sgwrsio yn ystod amseroedd cinio a byrbryd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn rhyngweithio'n dda â'u cyfoedion ac yn mwynhau chwarae a chwblhau tasgau gyda'i gilydd. Er enghraifft, wrth gydweithio i wneud cacen i'r ymarferydd yn y tŷ bach twt. Maent yn helpu a rhoi cyfarwyddyd i'w gilydd am ba cynhwysion i ychwanegu nesaf ac yn trafod a sgwrsio'n frwdfrydig. Mae'r rhan fwyaf o blant yn hapus i rannu adnoddau gyda'u ffrindiau ac yn dysgu medrau cymdeithasol pwysig yn dda. Er enghraifft, wrth chwarae gyda'r trenau maent yn hapus i gymryd eu tro i osod darnau o'r trac ac i rolio'r trenau ar ei hyd.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau'n dda wrth fynd i'r afael â thasgau ac maent yn mwynhau arbrofi gydag offer a deunyddiau gwahanol. Er enghraifft, cawsant lawer o hwyl wrth greu pryd pasta i un or ymarferwyr, gan ychwanegu perlysiau ffres a pherlysiau wedi sychu i'r pasta sych. Mae'r rhan fwyaf o blant yn chwilfrydig am y byd o'u cwmpas ac yn mwynhau chwarae a defnyddio eu dychymyg, fel chwarae'n ddychmygol yn yr ardal chwarae rôl a'r ardal byd bach.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dewis gweithgareddau'n annibynnol a dilyn eu diddordebau yn effeithiol. Maent yn datblygu medrau annibynnol da, er enghraifft wrth iddynt rhoi eu bocsys bwyd yn y man priodol a gosod eu poteli diod yn y pocedi pwrpasol ar ôl cinio. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dyfalbarhau'n dda wrth geisio cwblhau tasgau drostynt eu hunain. Er enghraifft, wrth newid dillad y doliau ac wrth dynnu'r caeadau oddi ar y perlysiau sych.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae'r ymarferwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant yn dda. Maent yn rhoi gweithdrefnau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau bod plant yn iach a diogel. Mae bob un ohonynt wedi cael hyfforddiant amddiffyn plant perthnasol ac maent yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau i'w dilyn os oes ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Yn ogystal, mae bob un o'r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatreg, sy'n eu paratoi i roi triniaeth briodol, pe byddai angen. Mae unrhyw ddamweiniau yn cael eu cofnodi'n effeithiol mewn llyfr pwrpasol. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn gyfarwydd â sut i adael y lleoliad yn ddiogel ac yn sydyn mewn argyfwng drwy gynnal ymarferion tân rheolaidd a'u cofnodi'n effeithiol.

Gwneir defnydd da o weithdrefnau cyfredol er mwyn atal lledaenu haint. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn annog y plant i olchi eu dwylo ar ôl defnyddio'r toiled a chyn bwyta byrbryd. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo ymarfer corff yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau bod cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu eu medrau corfforol a threulio amser yn yr awyr iach yn ddyddiol.

Mae'r holl ymarferwyr wedi ffurfio perthnasoedd cadarnhaol gyda'r plant. Maent yn siarad gyda'r plant mewn ffordd garedig ac yn eu trin gyda gofal a pharch. Mae'r holl ymarferwyr yn defnyddio strategaethau effeithiol a chyson i hybu ymddygiad cadarnhaol yn unol â pholisi'r lleoliad. Er enghraifft, maent yn denu sylw plant at weithgaredd arall os ydynt yn cael trafferthion wrth rannu neu gymryd tro ac yn cynnig esboniad clir pan nad yw eu hymddygiad yn dderbyniol. Mae'r holl ymarferwyr yn modelu medrau cymdeithasol yn effeithiol trwy chwarae wrth ochr y plant. Maent yn eu hannog i ddweud diolch a chanmol ei gilydd yn ystod y gweithgareddau.

Mae arweinwyr yn sicrhau trefniadau pwrpasol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ymarferwyr yn casglu ystod o wybodaeth am hoffterau, anghenion ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall cyn i'r plant gychwyn yn y lleoliad. Mae hyn yn galluogi'r ymarferwyr i gynllunio'n effeithiol are eu cyfer. Mae arweinwyr yn sicrhau bod gweithdrefnau effeithiol ar waith i gyfeirio plant yn amserol am gymorth gan asiantaethau allanol ac mae'r ymarferwyr yn cwblhau hyfforddiant ychwanegol lle bo angen. O ganlyniad, mae gweithdrefnau cadarn yn eu lle i sicrhau bod anghenion bob plentyn yn cael eu diwallu'n effeithiol.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae'r ymarferwyr yn groesawgar ac yn ofalgar. Maent yn llwyddo i greu amgylchedd dysgu braf gyda phwyslais arbennig ar ddatblygu'r Gymraeg. O ganlyniad, mae'r plant yn mwynhau mynychu sesiynau. Yn yr arferion gorau, mae'r ymarferwyr yn byrlymu siarad wrth chwarae ochr yn ochr gyda'r plant, gan fodelu iaith yn gelfydd a manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi geirfa'r plant. Un enghraifft o hyn yw pan mae ymarferydd yn cynnig y gair 'cymysgu' ar ôl i blentyn defnyddio cystrawen Seisnigaidd i ddisgrifio paratoi paent. Mae ymarferwyr yn annog plant i ddangos diddordeb mewn llyfrau o oed ifanc iawn. O ganlyniad, mae'r plant yn mynd i'r ardal darllen a dewis hoff lyfrau yn naturiol, gan drafod cynnwys y straeon. Mae'r ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd i drafod y stori yn grefftus, er enghraifft trwy

herio plant i ddisgrifio beth sydd yn y lluniau, neu i ddyfalu beth fydd yn digwydd nesaf.

At ei gilydd, mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu gwerthfawr sy'n seiliedig ar ofynion Cwricwlwm i Gymru. Maent yn cyfoethogi ardaloedd dysgu a chwarae er mwyn sbarduno dychymyg y disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn gosod adnoddau yn yr ardal crefftau sy'n ymwneud a'r Pasg. Mae'r plant yn trafod 'plisgyn yr wy' sydd am fod yn rhan o'u collage. Mae hyn eu cynorthwyo i ddatblygu medrau Cymraeg a chreadigol yn llwyddiannus yn ogystal â datblygu chwilfrydedd plant o'r byd naturiol. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod gan blant mynediad at offer digidol sy'n datblygu eu medrau cyfathrebu. Er enghraifft, maent yn annog plant i siarad i fewn i radio llaw, gan awgrymu i'r rhai mwyaf swil yr hyn y gallent ofyn. Maent yn darparu cyfleoedd buddiol i blant datblygu medrau rhifedd, er enghraifft wrth ganu'r can 'Pum Robin Goch' sy'n datblygu dealltwriaeth gynnar plant o adio a thynnu yn effeithiol.

Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r ardal tu allan. Er enghraifft, mae plant yn datblygu medrau modur man wrth bobi teisen siocled yn y gegin mwd, a medrau modur mawr wrth reidio sgwteri a threiciau. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i'r plant penderfynu pa ardaloedd maent yn awyddus i chwarae ynddynt. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob tro'n cynllunio'n ddigon bwriadus ar gyfer ychydig iawn o agweddau. Er enghraifft, er eu bod wedi cyfoethogi'r ddarpariaeth gydag adnoddau amlddiwylliannol, nid ydynt yn cynllunio digon o gyfleoedd i blant dysgu am amrywiaeth.

Mae ymarferwyr yn trefnu ystod dda o ymweliadau sy'n cyfoethogi profiadau'r plant yn bwrpasol. Mae hwn yn elfen gref o'r ddarpariaeth sy'n galluogi plant i ddysgu mewn cyd-destunau go iawn. Er enghraifft, maent yn ymweld â siopau lleol fel swyddfa'r post a siop trin gwallt. Maent yn dysgu am bobl sy'n ein helpu wrth eistedd mewn car heddwas, ac yn dysgu am ein cymuned leol wrth ymweld â 'chwt llefrith' a fferm ac i weld o le mae llefrith yn dod.

Mae gan ymarferwyr prosesau addas ar gyfer olrhain cynnydd plant. Maent yn cofnodi camau cynnydd mewn llyfrau 'taith dysgu' yn fuddiol. Mae hyn yn cynnwys gwneud defnydd o arsylwadau i gofnodi pan maent yn adnabod cyfnodau pwysig yn eu datblygiad. Maent yn ymyrryd yn briodol yn dilyn arsylwadau er mwyn cefnogi plant i ddatblygu ymhellach. Er enghraifft, maent yn adnabod geirfa allweddol newydd sy'n ymwneud a byd natur ac yn darparu cardiau fflach i gefnogi plentyn i fewnoli'r eirfa.

## Yr amgylchedd:  Da

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant drwy ddarparu gweithdrefnau sy'n sicrhau bod unrhyw beryglon posib yn cael eu monitro a'u rheoli'n effeithiol. Maent wedi llunio asesiadau risg trylwyr yn amlinellu peryglon posib a'r camau sydd wedi eu cymryd i leihau neu atal y risg i blant. Maent hefyd yn gwirio'r dogfennau yma'n gyson, ac yn cwblhau asesiadau ychwanegol unrhyw weithgareddau newydd. Pan mae unrhyw beryglon yn cael eu canfod, mae ymarferwyr yn delio gyda'r rhain yn gyflym ac yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ardaloedd dysgu a chwarae yn braf, cyfforddus a chysurus gyda digon o le i blant symud o gwmpas yn rhwydd. Maent yn sicrhau bod plant yn cael synnwyr o berthyn drwy arddangos esiamplau o waith y plant a

ffotograffau ar y waliau. Mae'r ystafell chwarae wedi ei threfnu i ardaloedd dysgu pwrpasol gydag amrywiaeth o ddeunyddiau ac adnoddau naturiol sy'n cyfoethogi profiadau'r plant. Er enghraifft, mae teledu a ffôn wedi ei hailgylchu yn yr ardal chwarae rôl ac amrywiaeth o ffrwythau a llysiau go iawn yn y 'siop'. Mae arweinwyr wedi datblygu'r ardal chwarae tu allan wedi cael ei datblygu i gynnig amrywiaeth o weithgareddau a chyfleodd pwrpasol i blant chwarae a datblygu ymwybyddiaeth o'r byd o'u cwmpas. Er enghraifft, mae'r gegin fwd gyda perlysiau a chynhwysion naturiol i ychwanegu i'r tywod yn cynnig cyfleoedd buddiol iddynt arbrofi a chwarae rôl yn naturiol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod ystod eang o adnoddau ac offer diddorol a chyffrous ar gael yn yr ystafell chwarae. Mae'r rhain o ansawdd da ac yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Mae ymarferwyr yn cadw cofnod trylwyr o ba bryd mae'r ardaloedd chwarae, teganau ac adnoddau'n cael eu glanhau. Mae hyn yn digwydd yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr adnoddau'n lân ac mewn cyflwr da. Mae arweinwyr wedi cychwyn buddsoddi mewn adnoddau er mwyn hybu ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliannau gwahanol. Mae hyn yn helpu'r plant ddysgu i fod yn ddinasyddion goddefgar ac i ddeall gwahaniaethau yn y byd o'u cwmpas.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da**

Mae'r arweinydd yn creu ac yn cynnal awyrgylch cartrefol a gweithgar gyda phwyslais amlwg ar ddatblygu medrau Cymraeg a dathlu Cymreictod. Mae hi'n ymgorffori ymddygiadau proffesiynol cadarnhaol ac yn modelu addysgeg safon uchel yn fuddiol i weddill yr ymarferwyr. Mae'r holl ymarferwyr yn cydweithio'n llwyddiannus fel tîm. Caiff eu cynorthwyo gan bwyllgor ac unigolyn cyfrifol sy'n newydd i'w rôl ac yn dechrau dod i adnabod cryfderau a meysydd i wella'r lleoliad.

Mae arweinwyr yn hunanwerthuso'r ddarpariaeth yn briodol ac yn cynhyrchu adroddiad blynyddol buddiol. Mae'n rhoi sylw addas i agweddau gwahanol o'r gwasanaeth, ac yn yr arferion gorau mae'r broses yn arwain at wella profiadau plant. Er enghraifft, bu iddynt ychwanegu 'wal teulu' er mwyn cryfhau'r ymdeimlad o berthyn i'r lleoliad. Er hyn,nid yw arweinwyr bob tro'n gwerthuso effaith y ddarpariaeth ar fedrau plant yn ddigon effeithiol. Mae arweinwyr yn creu cynlluniau datblygu cadarn sy'n adnabod blaenoriaethau addas ar gyfer gwella. Er enghraifft, yn ddiweddar maent wedi cynyddu'r cyfleoedd i blant defnyddio ystod o adnoddau digidol.

Mae arweinwyr yn rheoli'r gyllideb yn ddoeth. Maent yn blaenoriaethu gwariant er mwyn gwella profiadau disgyblion. Er enghraifft, maent yn gwneud defnydd o grant gan grŵp cymunedol i greu lloches yn yr ardal tu allan sy'n galluogi plant i ddefnyddio adnoddau mewn tywydd garw.

Mae arweinwyr yn gweithredu gweithdrefnau recriwtio diogel ac mae ganddynt drefniadau da i werthuso perfformiad ymarferwyr. Maent yn goruchwylio a gwerthuso eu gwaith yn rheolaidd ac yn sicrhau cyfleoedd i fynychu hyfforddiant er mwyn diwallu anghenion unigol y plant. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr i gyd wedi mynychu hyfforddiant arbennigol i gynorthwyo plant ag anawsterau cyfathrebu ac i fedru darparu gofal i blant gydag anghenion meddygol. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn hyderus ac yn gymwys i gyflawni eu rolau'n effeithiol.

Mae arweinwyr yn cydweithio’n agos gyda phartneriaid eraill fel yr athrawes ymgynghorol blynyddoedd cynnar. O ganlyniad maent wedi llwyddo i fireinio’r ddarpariaeth er mwyn ymateb i ofynion Cwricwlwm i Gymru. Yn ogystal, mae perthynas agos gyda’r ysgol gynradd lle lleolir y ddarpariaeth. Er enghraifft, maent yn mynychu digwyddiadau fel diwrnod mabolgampau ar y cyd.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg.**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/06/2023

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 06 Mehefin 2023